Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** Swyddog Gwasanaethau Preswyl

**Lleoliad:** Tŷ Augusta, Glynebwy, NP23 8DN

**Cyfarwyddiaeth:** Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cyflog:** Gradd 5 (£28,624 - £31,586 pro rata/y flwyddyn)

**Oriau:** 20 awr yr wythnos

**Contract:** Cyfnod Penodol – 12 mis

**Crynodeb Swydd**

Ydych chi'n angerddol am wneud gwahaniaeth i fywydau unigolion? Ydych chi'n ymroddedig i ddarparu gofal a chymorth eithriadol o fewn amgylchedd deinamig a thrugarog? Rydym yn edrych am Swyddog Gwasanaeth Preswyl ymroddedig i ymuno â'n tîm a chyfrannu at ein cenhadaeth o rymuso unigolion i fyw bywydau bodlon.

Yn Nhŷ Augusta rydym yn credu mewn grymuso'r unigolion a gefnogwn, gan roi'r rhyddid a'r rheolaeth maent yn ei haeddu dros eu bywydau eu hunain. Os ydych yn ymroddedig i ddarparu gofal a chymorth eithriadol o fewn amgylchedd deinamig a thrugarog ac yn ymroddedig i rymuso unigolion i fyw bywydau bodlon, gwahoddwn chi i gyfrannu eich sgiliau a'ch caredigrwydd at ei tîm.

**Am y swydd**

Fel Swyddog Gwasanaeth Preswyl bydd gennych rôl ganolog yn ein hymrwymiad i ddarparu gofal a chymorth cynhwysfawr. Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys hwyluso darparu gofal a chymorth a aseswyd, gan sicrhau cadw urddas a hunan-barch drwy'r cyfan. Byddwn yn cynnwys oedolion mewn prosesau penderfynu, gan feithrin eu hannibyniaeth a'u grymuso. Bydd rheoli ymddygiad heriol yn rhan o'ch swydd, gan greu amgylchedd cefnogol sy'n hybu twf unigol. Bydd annog cyfranogiad mewn gweithgareddau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned yn ganolog wrth hyrwyddo llesiant holistig. Yn ychwanegol, bydd eich cyfraniad i gynllunio gofal a gwasanaeth, mynychu cyfarfodydd a dealltwriaeth werthfawr yn ystod adolygiadau gofal yn ganolog. Mae cynnal cyfrinachedd yn hollbwysig, gan gydnabod ac anrhydeddu bregusrwydd unigolion y gofalwch amdanynt.

Mae'r swydd yn rhoi cyfle i gael effaith gadarnhaol ar oedolion bregus o fewn y gymuned. Cewch gyfle i ddefnyddio eich greddf a'ch arbenigedd mewn cefnogi pobl yn effeithiol, gan eu llywio tuag at sicrhau annibyniaeth. Mae'r nodweddion hanfodol ar gyfer y swydd yn cynnwys ffordd o feddwl sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad, ymrwymiad i feithrin iechyd ac annibyniaeth a bod â natur empathetig.

**Amdanoch chi**

Rydych yn rhywun gydag ymrwymiad gwirioneddol i ddarparu gofal eithriadol, meithrin annibyniaeth a hyrwyddo llesiant ymysg oedolion bregus. Mae eich natur empathetig a dull gweithredu gyda ffocws ar ddatrysiadau yn eich galluogi i lywio sefyllfaoedd cymhleth yn rhwydd, gan sicrhau fod unigolion yn derbyn cymorth pwrpasol. Bydd eich NVQ Lefel 3 mewn Gofal, ynghyd â phrofiad o weithio gydag unigolion gydag anableddau dysgu, yn arddangos eich ymroddiad i'r maes hwn. Rydych yn rhagweithiol ac yn agored i dwf, yn fodlon dilyn hyfforddiant pellach i ehangu eich set sgiliau a chyfrannu'n effeithlon at ein tîm.

**Amdanom ni**

Mae aelodau ein tîm yn haeddu boddhad proffesiynol a chydbwysedd iach rhwng gwaith-bywyd. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i greu'r amodau gorau posibl ac yn cynnig hyfforddiant cynhwysfawr i roi'r galluoedd sydd eu hangen i gyflwyno cymorth rhagorol, gan wneud gwahaniaeth amlwg ym mywydau aelodau ein cymuned. Rydym yn meithrin amgylchedd gwaith sicr a chalonogol, gan ddarparu goruchwyliaeth, cyson, mentoriaeth a phecyn buddion cystadleuol.

**Pam Tŷ Augusta?**

**Effaith ystyrlon:** Fel Swyddog Gwsanaethau Preswyl yn Nhŷ Augusta bydd gennych rôl ganolog mewn cyfoethogi bywydau unigolion sydd ag anableddau dysgu. Bydd eich ymroddiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at eu hannibyniaeth a'u llesiant cyffredinol.

**Grymuso:** Rydym yn rhoi blaenoriaeth i roi cymaint o reolaeth dros eu bywydau ag sydd modd i'r bobl a gefnogwn. Bydd eich swydd yn cynnwys meithrin annibyniaeth, annog dewisiadau personol a sicrhau amgylchedd diogel a chefnogol lle gall unigolion ffynnu.

**Gwaith Gwerth Chweil:** Gallwch brofi boddhad gwybod eich bod yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Bob dydd, cewch gyfle i greu newid cadarnhaol ac ysbrydoli'r rhai a gefnogwch.

Ydych chi'n barod i fod yn rhan o dîm rhyfeddol? Anelwn fod yn gyflogydd o ddewis, gan ddenu a chadw unigolion eithriadol sy'n rhannu ein angerdd dros wasanaethu cymunedau amrywiol Blaenau Gwent. Os ydych yn barod i ddechrau ar daith werth chweil, gan feithrin annibyniaeth a chyfoethogi bywydau pobl eraill, Tŷ Augusta yw'r lle i chi. Ymunwch â ni i greu amgylchedd cefnogol lle gall pawb ffynnu. Gwnewch gais nawr a bod yn rhan hanfodol o'n cenhadaeth i rymuso a chefnogi unigolion sydd ag anableddau dysgu.

**Beth nesaf?**

Darllenwch y disgrifiad swydd a'r fanyleb person cyn clicio 'Gwneud Cais' i ddechrau'r broses gais ar-lein.

Os hoffech drafodaeth agored ac anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â:

Helen Beecham | 01495 305805 | Helen.Beecham@blaenau-gwent.gov.uk

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol.**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau: 20/02/2025 – 12:00am, canol nos Dyddiad Cyfweliadau: I'w gadarnhau**